



Prif Grantiau

Canllawiau ar y Ffurflen Adrodd

2020

Cynnwys

Pwrpas y canllawiau	Error! Bookmark not defined.
Cyflwyniad i Adrodd i BBC Plant mewn Angen	Error! Bookmark not defined.
Sut rydyn ni'n defnyddio'r wybodaeth a ddarperir ar y Ffurflen Adrodd	Error! Bookmark not defined.
Llenwi'r ffurflen	Error! Bookmark not defined.
Nodi eich Gwahaniaethau (Canlyniadau)	Error! Bookmark not defined.
Gwybodaeth bersonol	Error! Bookmark not defined.
Prosiectau a ariennir yn rhannol	Error! Bookmark not defined.
Canllawiau fesul Cwestiwn	Error! Bookmark not defined.
1. Crynodeb o'r Prosiect	Error! Bookmark not defined.
2. Gweithgareddau a gwasanaethau eich prosiect	Error! Bookmark not defined.
3. Y Plant a Phobl Ifanc	Error! Bookmark not defined.
Ar ba wybodaeth ydych chi wedi seilio'r dadansoddiad hwn o oedran?	Error! Bookmark not defined.
Gwneud gwahaniaeth i Blant a Phobl Ifanc	Error! Bookmark not defined.
3.1 Monitro a Gwerthuso: Sut rydych chi'n mesur ac yn dadansoddi'r gwahaniaeth rydych chi'n ei wneud	Error! Bookmark not defined.
3.2. Gwahaniaeth 1 - Pa wahaniaeth rydych chi'n ei wneud?	Error! Bookmark not defined.
7. Eich Cyllid	Error! Bookmark not defined.
8. Diweddariad Diogelu	Error! Bookmark not defined.
9. Y Diweddaraaf am y Sefydliad	Error! Bookmark not defined.
10. Beth gall ein harian ei brynu: ystadegau codi arian	Error! Bookmark not defined.

Pwrpas y canllawiau

Bydd y ddogfen hon yn eich arwain drwy bob cwestiwn ar ein Ffurflen Adrodd. Ewch i'n gwefan i wneud yn siŵr eich bod yn defnyddio fersiwn ddiweddaraf y canllawiau hyn. Mae'r canllawiau hyn ar gyfer y Ffurflen Adrodd yn unig. Mae canllawiau ar ein Ffurflen Gais ar gyfer Prosiectau ar gael [yma](#). Mae canllawiau ar ein Ffurflen Gofrestru i Sefydliadau ar gael [yma](#).

Cyflwyniad i Adrodd i BBC Plant mewn Angen

Rydyn ni am glywed gan yr holl brosiectau sy'n cael eu hariannu gennym am y gwahaniaeth y maent yn ei wneud. Gofynnwn i chi fesur a gwerthuso eich prosiect ac adrodd yn ôl i ni bob blwyddyn.

Yn bennaf, rydyn ni am wybod am y Gwahaniaethau rydych chi wedi'u gwneud ym mywydau'r bobl ifanc rydych chi wedi gweithio gyda nhw. Mae cwestiynau hefyd am eich sefyllfa ariannol a'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw. Rydyn ni hefyd yn gofyn am yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu o'ch prosiect a'ch camau diogelu.

Anfonir neges e-bost atoch tua diwedd pob blwyddyn o'ch grant, yn gofyn i chi lenwi eich Ffurflen Adrodd. Hyd nes byddwch chi'n cael yr e-bost hwn, fyddwch chi ddim yn gallu gweld y ffurflen yn eich cyfrif.

Ni fyddwn yn gallu rhyddhau rhagor o randaliadau o'ch grant hyd nes bydd eich adroddiad yn dod i law.

Rydyn ni'n gwybod y bydd pethau'n newid ar ôl dyfarnu grant. Cysylltwch â ni i drafod unrhyw newidiadau sy'n ymwneud â'ch grant, gan gynnwys unrhyw danwariant neu newid defnydd. Os bu oedi cyn cychwyn eich prosiect, rhowch wybod i ni. Gall hyn effeithio ar ddyddiadau cau eich adroddiadau diwedd blwyddyn. Gallwch gadw mewn cysylltiad â ni drwy gydol eich grant, nid yn unig pan fyddwch chi'n anfon eich adroddiad grant diwedd blwyddyn. Mae croeso i chi [gysylltu â ni](#) unrhyw bryd.

Sut rydyn ni'n defnyddio'r wybodaeth a ddarperir ar y Ffurflen Adrodd

Byddwn yn darllen eich Ffurflen Adrodd i ddysgu mwy am eich prosiect. Mae hyn yn cynnwys:

- Sut hwyl rydych chi wedi'i gael yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
- Sut rydych chi wedi gwario arian y grant
- Y gwahaniaeth rydych chi wedi'i wneud i'r plant a'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw
- Y gwersi rydych chi wedi'u dysgu o'ch prosiect

Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio eich astudiaeth achos ar gyfer apêl codi arian neu gyhoeddusrwydd – ond byddwn yn gofyn i chi'n gyntaf bob amser. Mae pob adroddiad yn ein helpu i ganfod tueddiadau ac arferion da o bob rhan o'r DU. Mae hyn yn ein helpu i ddysgu am ein gwaith ein hunain, ei werthuso a'i wella. Mae hyn yn ein helpu i ariannu'r prosiectau gorau posibl gyda'r arian sydd gennym a rhannu'r gwersi rydyn ni wedi'u dysgu. Rydyn ni'n rhannu hyn gyda phrosiectau fel eich un chi, cyllidwyr eraill, llywodraethau lleol neu genedlaethol neu gyda'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae hyn yn helpu i wneud gwahaniaeth mwy byth i fywydau plant a phobl ifanc.

Llenwi'r ffurflen

Dyma rai awgrymiadau defnyddiol i'ch helpu i llenwi'r ffurflen.

- 🐱 Atebwch yr holl gwestiynau ar y ffurflen hon oni bai ein bod wedi nodi bod y cwestiwn yn un dewisol
- 🐱 Mae gan lawer o'r cwestiynau gyfyngiad nodau. Mae hyn yn golygu y bydd cyfyngiad ar ba mor hir yw eich atebion. Mae llythrennau, atalnodau a bylchau i gyd yn cyfrif fel nodau. Pan fyddwch wedi teipio'r uchafswm nodau, ni fyddwch yn gallu teipio mwy. Atebwch yn glir ac yn gryno.
- 🐱 Os ydych chi'n dymuno gorffen llenwi unrhyw ran o'r ffurflen rywbryd eto, cliciwch y botwm 'Cadw a Chwblhau Rhywbryd Eto' ar y diwedd. Bydd hyn yn cadw'r hyn rydych chi wedi'i wneud, gan ganiatáu i chi orffen llenwi'r ffurflen rywbryd eto.
- 🐱 Rydyn ni'n argymhell eich bod chi'n cadw eich gwaith bob 15-20 munud i wneud yn siŵr nad ydych chi'n colli unrhyw beth.

Efallai eich bod eisoes wedi paratoi adroddiadau ar gyfer eich ymddiriedolwyr neu gyllidwyr eraill. I fodloni eich gofynion adrodd, rhaid i chi ddychwelyd ffurflen adrodd BBC Plant mewn Angen. Rydyn ni'n gofyn cwestiynau penodol i'n helpu i gasglu gwybodaeth gyda phrosiectau eraill a ariennir. Mae hyn yn helpu i roi cipolwg i ni o'r darlun mawr.

Fodd bynnag, os oes gennych chi unrhyw werthusiadau prosiect eraill yr hoffech eu rhannu â ni, mae croeso i chi eu cynnwys fel atodiad i'ch ffurflen adrodd ar gyfer BBC Plant mewn Angen. Gallwch lwytho'r rhain i fyny drwy'r porthol.

Cysylltwch â'ch Swyddog Cenedlaethol neu Ranbarthol os oes unrhyw ran o'r canllawiau hyn yn aneglur neu os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi.

Os nad ydych chi'n siŵr pwy yw eich Swyddog, cysylltwch â ni yn pudseygrants@bbc.co.uk

Nodi eich Gwahaniaethau (Canlyniadau)

Yn bennaf, rydyn ni am wybod am y Gwahaniaethau rydych chi wedi'u gwneud ym mywydau'r bobl ifanc rydych chi wedi gweithio gyda nhw.

Nodwyd ar eich Ffurflen Gais ar gyfer Prosiectau dri gwahaniaeth y bydd eich prosiect yn eu gwneud ym mywydau plant a phobl ifanc.

Mae'r gwahaniaethau y byddwch chi'n eu gwneud yn cael eu galw'n ganlyniadau hefyd. Rydyn ni am wybod sut byddwch chi'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ym mywydau plant a phobl ifanc. Rydyn ni am weld gwahaniaethau sydd:

- 🐱 Yn glir – Peidiwch â'u gwneud yn orgymhleth.
- 🐱 Yn fesuradwy – Meddyliwch am sut byddwch yn mesur y gwahaniaethau. A fydd modd dweud a ydych chi wedi llwyddo ai peidio?
- 🐱 Yn realistig – Mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod modd cyflawni'r gwahaniaethau. Mae hyd yn oed y newidiadau lleiaf ym mywydau plant yn gallu cael effaith enfawr yn aml. Gwnewch yn siŵr eich bod yn canolbwyntio ar y bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw, nid y darlun mawr. Ystyriwch a oes modd cyflawni eich gwahaniaethau yn ystod cyfnod eich prosiect.
- 🐱 Yn canolbwyntio ar y plentyn – Rydyn ni'n ariannu gwaith sy'n gwneud gwahaniaeth ym mywydau plant a phobl ifanc. Efallai y byddwch yn gweithio gydag amgylchedd person

ifanc (h.y. eu rhieni, y gymuned). Gwnewch yn siŵr eich bod dim ond yn trafod sut bydd o fudd i'r plentyn.

Dyma rai awgrymiadau ar gyfer nodi eich gwahaniaethau:

- 🐱 Cadwch nhw'n syml. Ysgrifennwch un datganiad am sut byddwch yn newid bywydau pobl ifanc er gwell. Dylech osgoi cysylltu fwy nag un gwahaniaeth gyda geiriau fel 'ac'.
- 🐱 Defnyddiwch iaith sy'n dangos newid. Mae gwahaniaeth cryf yn gysylltiedig â geiriau fel 'gwell', 'lleihau', 'cynyddu' 'llai', 'cryfhau' ac ati.
- 🐱 Gwnewch yn siŵr eu bod yn canolbwyntio ar y plentyn. Meddyliwch am beth fyddai pob gwahaniaeth yn ei olygu i berson ifanc.
- 🐱 Gwnewch yn siŵr eu bod yn berthnasol. Byddwch yn glir ynghylch sut mae eich gwahaniaethau'n cysylltu â'r anfanteision y mae pobl ifanc yn eu profi.

I gael mwy o fanylion am sut rydyn ni am i'n prosiectau wella bywydau Plant yn y DU, cliciwch [yma](#).

Meddyliwch sut bydd eich prosiect yn helpu i gyflawni'r gwahaniaethau. Dylech chi feddwl am sut bydd y gweithgareddau'n arwain at newidiadau cadarnhaol yn eu bywyd.

Mesur eich gwahaniaethau

Rhaid i'r gwahaniaeth rydych chi'n ei wneud ym mywydau pobl ifanc fod yn fesuradwy. Rhowch wybod i ni pa wybodaeth byddwch chi'n ei defnyddio i bennu a yw eich prosiect yn llwyddiant ai peidio.

Dylech chi wneud y canlynol:

- 🐱 Ystyried defnyddio gwybodaeth wahanol ar gyfer pob gwahaniaeth. Gwnewch yn siŵr eich bod yn meddwl am y ffordd orau o fesur pob un yn unigol.
- 🐱 Ystyried defnyddio cymysgedd o ystadegau a hanesion. Mae rhifau ac ystadegau'n ddefnyddiol iawn ar gyfer mesur tueddiadau a phatrymau. Mae straeon yn well ar gyfer casglu enghreifftiau go iawn. Bydd y rhain yn gwneud i'ch prosiect ddod yn fyw pan fyddwn yn darllen amdano. Byddwch wedi clywed y termau 'ansoddol' a 'meintiol' ar gyfer y mathau hyn o ddata.
- 🐱 Meddwl am y ffordd orau o gasglu gwybodaeth. Mae sawl ffordd o wneud hyn. Dyma rai enghreifftiau:
 - 🐱 **Arsylwadau:** Beth ydych chi'n ei glywed/gweld pan fyddwch yn gwyllo'r bobl ifanc dros amser? Mae hyn yn ddefnyddiol ar gyfer nifer fawr o bobl ifanc. Ond mae'n rhaid i chi ofalu bod eich gweithwyr prosiect yn gyson.
 - 🐱 **Ffurflenni Adborth/Holiaduron:** Mae'r rhain yn casglu gwybodaeth benodol gan nifer fawr o bobl. Maen nhw'n gallu bod yn anodd eu dylunio ac yn anniddorol i blant weithiau.
 - 🐱 **Ymarferion Graddfa:** Mae'r rhain yn cynnwys creu eich graddfa eich hun. Yn aml, mae'r raddfa rhwng un a deg, neu cytuno ac anghytuno. Wedyn mae plant yn gallu 'gosod' eu hunain ar y raddfa. Does dim rhaid iddynt fod ar bapur. Maen nhw'n gallu bod yn hwyl ac yn greadigol. Yn aml, dydy pobl ifanc ddim yn sylweddoli eu bod yn rhoi adborth.
 - 🐱 **Sgyrsiau:** Gallai'r rhain fod gyda phlant, rhieni, athrawon neu unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Maen nhw'n cymryd mwy o amser, ond yn gallu rhoi dealltwriaeth gref i chi o'r unigolion. Mae hefyd yn bwysig gwneud yn siŵr bod yr adborth yn onest.
 - 🐱 **Adnoddau cydnabyddedig:** Mae llawer o adnoddau cydnabyddedig y gallech eu defnyddio. Mae manteision ac anfanteision i'r rhain. Maen nhw'n cynnwys pethau fel [Coed Blobiau](#), [Graddfa Lles Warwick-Caeredin](#), Hunanasesiadau STAR neu'r Prawf Tŷ/Coeden/Person.
 - 🐱 **Gwneud eich adnoddau eich hun:** Yn aml, y ffordd orau o gasglu gwybodaeth yw bod yn greadigol. Meddyliwch am y bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw a beth fyddai fwyaf addas iddyn nhw.

🐾 Meddwl pryd byddwch chi'n casglu'r wybodaeth hon. Bydd eich gwybodaeth yn fwy defnyddiol o lawer os byddwch yn ei chasglu drwy gydol y prosiect, nid dim ond ar y diwedd.

Am fwy o wybodaeth ac adnoddau, ewch i:

🐾 [Gwasanaethau Gwerthuso Elusennau Cenedlaethol \(NCVO\)](#)

🐾 [Inspiring Impact](#)

🐾 [Evaluation Support Scotland \(ESS\)](#)

Gwybodaeth bersonol

Ni ddylech ddatgelu gwybodaeth bersonol am blant a phobl ifanc yn eich Ffurflen Adrodd. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a allai, ar ei phen ei hun, ddatgelu pwy yw pobl ifanc, neu a allai, gyda gwybodaeth arall, ffurfio rhan o ddarlun ehangach.

Er enghraifft:

Ddim yn cael ei ganiatáu: “Anna J, sydd â syndrom Eisenmenger”

Yn cael ei ganiatáu: “Plentyn C, sydd â chyflwr ar y galon”

Mae'n iawn cynnwys gwybodaeth bersonol sy'n angenrheidiol ar gyfer yr adran Datganiad y Ffurflen Adrodd, fel manylion cyswllt gweithwyr sy'n llenwi ac yn awdurdodi'r ffurflen.

O ran eich gwybodaeth bersonol chi, mae rhagor o wybodaeth am sut rydyn ni'n prosesu eich data ar gael yn ein Polisi Preifatrwydd.

Prosiectau a ariennir yn rhannol

Dim ond ar y rhannau o'ch prosiect y mae BBC Plant mewn Angen yn eu hariannu'n uniongyrchol y dylech adrodd. Rydyn ni'n deall y bydd elfennau pwysig eraill i'ch prosiect. Yn yr adroddiad hwn rydyn ni am wybod sut mae ein cyllid yn gwneud gwahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc.

Canllawiau fesul Cwestiwn

1. Crynodeb o'r Prosiect

1.1 Enw'r Sefydliad

Defnyddiwch enw cyfreithiol eich sefydliad. Bydd eich enw cyfreithiol ar eich dogfennau llywodraethu a'ch cyfrif banc. Gwnewch yn siŵr mai hwn yw'r enw a roesoch chi i ni pan gofrestrodd eich sefydliad. Dylai'r enw hwn fod ar eich Ffurflen Gais ar gyfer Prosiectau hefyd.

1.2 Cyfeirnod

Fe ddylai'r maes hwn gael ei lenwi ar eich rhan yn awtomatig.

1.3 Crynodeb o'ch grant gan BBC Plant mewn Angen

Mae'r crynodeb hwn o'r grant yn cael ei fwydo o'n cronfa ddata grantiau. Mae hwn wedi'i gynnwys at ddibenion cyfeirio yn unig ac fe ddylai fod wedi cael ei lenwi ar eich rhan yn awtomatig.

2. Gweithgareddau a gwasanaethau eich prosiect

2.1 Dyma beth ddywedoch chi wrthym ni ar eich Ffurflen Gais ar gyfer y Prif Grantiau. Dyma'r wybodaeth a nodoch am bryd, ble ac am ba hyd y byddech yn darparu eich gweithgareddau a'ch gwasanaethau. Gwiriwch atebion eich cais isod.

Pryd, Pa mor aml, Am ba hyd, Ble. Disgrifiad o'r Prosiect.

Daw'r wybodaeth hon o'n cronfa ddata grantiau ac fe ddylai fod wedi cael ei llenwi ar eich cyfer yn awtomatig. Mae eich Ffurflen Adrodd Diwedd Blwyddyn 1 yn dangos yr hyn a ddywedoch wrthym ar eich Ffurflen Gais ar gyfer Prosiectau. Ar Ffurflenni Adrodd Diwedd Blwyddyn dilynol, mae'n dangos yr hyn a ddywedoch wrthym ar y Ffurflen Adrodd ddiwethaf a gyflwynwyd.

A fyddech cystal â diweddarau unrhyw newidiadau i'r atebion hyn i adlewyrchu'r hyn mae eich prosiect wedi'i gyflawni eleni, o ganlyniad i'r grant hwn.

Adolygwch yr atebion i'r cwestiynau uchod, gan ystyried a ydynt yn adlewyrchu'r hyn a gyflawnodd eich prosiect eleni. Gwnewch unrhyw newidiadau angenrheidiol. Gallwch addasu'r cwymplenni (pryd, pa mor aml, am ba hyd a ble) ac ysgrifennu testun newydd yn y blwch Disgrifiad o'r Prosiect. Dim ond gwybodaeth am y prosiect a ariennir gan y grant BBC Plant mewn Angen hwn y dylech ei rhoi.

Esboniwch unrhyw amrywiadau i'ch Ffurflen Gais ar gyfer y Prif Grantiau.

Amlinellwch unrhyw resymau allweddol pam mae'r ffordd mae'r prosiect yn cael ei gyflawni wedi newid.

3. Y Plant a Phobl Ifanc

Faint o blant a phobl ifanc sydd wedi elwa o'ch prosiect eleni?

Dywedwch wrthym faint o blant a phobl ifanc rydych chi wedi gweithio gyda nhw eleni fel rhan o'r prosiect hwn. Dylai'r rhif hwn gynnwys yr holl blant rydych chi'n gweithio gyda nhw. Peidiwch â chynnwys dim ond y rheini sy'n wynebu anfanteision. Dylai hyn fod yn gyfanswm y plant a phobl ifanc a gefnogwyd eleni. Dylech gynnwys unrhyw blant sydd wedi bod yn rhan o'ch prosiect am dros flwyddyn.

Faint o'r plant a phobl ifanc a gafodd fudd o'ch prosiect y llynedd oedd dan anfantais?

Dywedwch wrthym faint o blant rydych chi wedi gweithio gyda nhw eleni sy'n wynebu anfanteision. Mae'n bosibl y bydd y nifer hon yr un fath â'r cwestiwn blaenorol os yw'r holl blant a phobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw yn wynebu anfanteision. Dylai hyn fod yn gyfanswm y plant a'r bobl ifanc a gefnogwyd eleni. Dylech gynnwys unrhyw blant sydd wedi bod yn rhan o'ch prosiect am dros flwyddyn. Er enghraifft, os bydd deg o blant yn mynychu ym mlwyddyn un, ac yna'r un deg o blant yn mynychu ym mlwyddyn dau, dylai eich ateb ar gyfer y ddwy flynedd fod yn '10'.

Mae diffiniadau BBC Plant mewn Angen o anfantais ar gael [yma](#).

Dywedwch wrthym beth yw oedran y plant a'r bobl ifanc, yn y tabl isod ar gyfer ein grwpiau oedran.

Rydyn ni'n deall y gallai eich prosiectau ar-lein gyrraedd ystod eang o bobl. Dylech gynnwys eich amcangyfrif gorau o'r rheini sydd wedi cael cyswllt ystyrlon ac sydd wedi elwa o'r prosiect. Ni ddylai'r rhif hwn adlewyrchu traffig i lwyfan/gwefan yn unig.

Ar ba wybodaeth ydych chi wedi seilio'r dadansoddiad hwn o oedran?

Dywedwch wrthym ar beth rydych chi wedi seilio'r wybodaeth hon am oedran. Gallai hyn fod o gofnodion rydych chi'n eu cadw fel cofnodion presenoldeb neu ffurflenni monitro. Gallai hefyd fod yn amcangyfrifon sy'n seiliedig ar eich gwybodaeth chi am y cyfranogwyr. Rydyn ni'n deall bod rhai modelau cyflawni prosiectau yn golygu nad yw'n hawdd casglu data am oedran. Mae amcangyfrifon yn dderbyniol yn yr achos hwn. Mae'r wybodaeth hon yn helpu i lywio sur rydyn ni'n mynd ati i ddadansoddi'r data hwn.

Ar eich Ffurflen Gais, fe wnaethoch chi ddisgrifio'r math(au) o anfantais mae eich plant a'ch pobl ifanc yn ei brofi fel a ganlyn. A yw hyn wedi newid yn ystod y flwyddyn? Os felly, disgrifiwch beth sydd wedi newid a pham?

Mae'r testun hwn yn cael ei fwydo o'n cronfa ddata grantiau ac fe ddylai fod wedi ei lenwi ar eich rhan yn awtomatig. Mae'n dangos y disgrifiad ar y Ffurflen Gais ar gyfer Prosiectau.

Sut ydych chi wedi sicrhau bod eich prosiect wedi cyrraedd y plant a'r bobl ifanc sydd fwyaf mewn angen?

Esboniwch sut aeth eich prosiect ati i dargedu a chyrraedd plant a phobl ifanc dan anfantais. Er enghraifft, sut oedd plant a phobl ifanc wedi clywed am y prosiect? Sut gwnaethoch chi eu hannog i fynychu?

Gwneud gwahaniaeth i Blant a Phobl Ifanc

Mae'r adran hon yn rhan bwysig o'n Ffurflen Adrodd. Yma, rydyn ni am wybod sut rydych chi wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ym mywydau plant a phobl ifanc. I gael rhagor o wybodaeth am Nodi eich Gwahaniaethau, gweler adran 2 uchod.

Fe wnaethoch chi nodi ar eich Ffurflen Gais dri phrif wahaniaeth yr oeddech chi'n gobeithio y byddai eich prosiect yn eu gwneud ym mywydau plant. Fe wnaeth rhai prosiectau ddiwygio'r gwahaniaethau hyn ar ôl dilyn hyfforddiant Eich Gwahaniaeth. Rhoddodd BBC Plant mewn Angen grynodeb o'r gwahaniaethau hyn ar ein cronfa ddata.

Gallwch weld ein crynodeb o'ch gwahaniaethau wrth lenwi eich Ffurflen Adrodd.

3.1 Monitro a Gwerthuso: Sut rydych chi'n mesur ac yn dadansoddi'r gwahaniaeth rydych chi'n ei wneud

Esboniwch sut rydych chi'n mesur eich Gwahaniaethau, drwy ddweud wrthym ni am unrhyw ddulliau ac adnoddau rydych chi'n eu defnyddio i gasglu data. Gall hyn gynnwys dulliau meintiol (rhifau) a/neu ansoddol (geiriau). Dylech gynnwys unrhyw dechnegau a ddefnyddir i gasglu barn a

phrofiadau'r plant a phobl ifanc rydych chi'n eu cefnogi. Dywedwch wrthym hefyd sut rydych chi'n **ystyried ac yn dadansoddi** gwybodaeth i ddeall y gwahaniaeth rydych chi'n ei wneud ac i lywio eich gwaith.

Mae'r adran hon yn ymwneud â'ch dull o gasglu a dadansoddi data, er mwyn creu tystiolaeth am wahaniaethau eich prosiect. Nid yw'n ymwneud â beth mae canlyniadau'r data neu'r dystiolaeth hon yn ei ddweud wrthyh (nodir hyn yn [adran 3.2](#) y Ffurflen Adrodd).

Os ydych chi'n fodlon rhannu mwy gyda ni am sut rydych chi'n mesur eich gwahaniaethau, ticiwch y blwch hwn.

Mae gennym ddiddordeb mewn archwilio, dysgu a rhannu gwahanol dulliau o fonitro a gwerthuso ymysg deiliaid ein grantiau. Os oes gennych chi ddull gweithredu sydd, yn eich barn chi, yn gweithio'n dda yn eich math chi o brosiect ac ymhlith eich carfan chi o blant a phobl ifanc, ticiwch yma. Efallai y byddwn yn cysylltu â rhai prosiectau sy'n ticio'r blwch hwn i glywed mwy am eich gwaith ac i ddysgu o'r hyn sy'n gweithio.

3.2. Gwahaniaeth 1 – Pa wahaniaeth rydych chi'n ei wneud?

Cyn belled ag y bo modd, dylai'r adrannau canlynol fod yn seiliedig ar ddata rydych chi wedi'i gasglu. Dylai'r rhain ddefnyddio'r dulliau gweithredu rydych chi wedi'u hamlinellu uchod (3.1). Mae'r adrannau hyn yn canolbwyntio ar yr hyn mae canlyniadau eich data neu'ch tystiolaeth yn ei ddweud wrthyh chi. Nid ydynt yn ymwneud â'r dulliau ar gyfer casglu data – yn yr adran hon, dywedwch wrthym beth ddysgoch chi o'ch dadansoddiad.

Dros y flwyddyn, faint o'ch plant a phobl ifanc dan anfantais sy'n 18 oed neu'n iau sydd wedi gwneud cynnydd sylweddol? Wedi dechrau gweld cynnydd? Heb ddechrau gweld cynnydd eto?

Rhowch y rhifau yn y blychau a ddarperir. Dylai'r niferoedd hyn ddangos amcangyfrif o gynnydd y plant a'r bobl ifanc rydych chi wedi'u cefnogi eleni. Dim ond plant sydd wedi wynebu anfantaision ac sy'n 18 oed neu'n iau y dylech eu cynnwys.

Mae 'cynnydd sylweddol' yn golygu eich dehongliad chi o'r hyn sy'n arwyddocaol i'r plant a'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw. Eich sefydliad chi sy'n adnabod y plant a'r bobl ifanc orau. Rydyn ni'n gwybod bod yr hyn sy'n bwysig i un person ifanc yn edrych yn wahanol iawn i rywun arall. Defnyddiwch yr adran hon i dynnu sylw at rai enghreifftiau o'r cynnydd a wnaed, mewn perthynas â'r canlyniadau a nodwyd.

Rydyn ni eisiau deall y stori y tu ôl i'r rhifau hyn. Dywedwch wrthym ni am y newid rydych chi wedi'i weld ym mywydau'r plant a'r bobl ifanc yn ystod y flwyddyn ar gyfer Gwahaniaeth 1 [uchod].

Defnyddiwch enghreifftiau o'ch data a ddisgrifir yn adran 3.1 i gefnogi hyn – e.e. ystadegau, adborth ac arsylwadau. Mae newid yn wahanol i wahanol blant a phobl ifanc, yn dibynnu ar eu hanghenion.

Dywedwch wrthym am y mathau o newidiadau a welwyd ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi gwneud cynnydd sylweddol; rhywfaint o gynnydd a'r rhai nad ydynt wedi gwneud unrhyw gynnydd eto.

3.3 a 3.4 - Ailadroddwch y broses ar gyfer y ddau wahaniaeth arall rydych chi'n ceisio eu cefnogi.

4. Gwahaniaethau eraill

Rydyn ni'n deall efallai na fydd y tri gwahaniaeth rydych chi wedi'u disgrifio yn rhoi'r darlun llawn o'r hyn mae eich prosiect wedi'i gyflawni i blant a phobl ifanc.

Dywedwch wrthym am unrhyw newidiadau eraill rydych chi wedi gweld y plant a'r bobl ifanc yn eu profi.

Mae'r cwestiwn hwn yn rhoi darlun mwy llawn i ni o sut mae eich prosiect wedi helpu plant. Rydyn ni'n deall y gall prosiectau arwain at fwy na thri Gwahaniaeth i blant a phobl ifanc. Hefyd, weithiau mae prosiectau'n arwain at ganlyniadau nad oeddent wedi'u bwriadu na'u disgwyl i ddechrau. Amlinellwch unrhyw newidiadau eraill rydych chi wedi'u gweld ym mhrofiad y plant drwy gydol y prosiect. Nid oes angen i ni wybod a ydych chi'n mesur y canlyniadau ychwanegol hyn na sut.

Y tu hwnt i'r plant a'r bobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn yn uniongyrchol, rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau ehangach sydd wedi deillio o'r prosiect hwn. Mae hwn yn gwestiwn dewisol. Gallai hyn gynnwys newidiadau rydych chi wedi gweld y prosiect yn cyfrannu atynt yn y sefydliad, yn y gymuned neu mewn grwpiau buddiolwyr eraill fel rhieni neu aelodau o'r teulu.

Rydyn ni'n deall y gall prosiectau gyfrannu at newidiadau y tu hwnt i'r plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu cefnogi. Mae'r cwestiwn hwn yn gyfle i'n helpu ni i ddeall unrhyw fanteision ehangach sy'n deillio o'r prosiect, er enghraifft i'r gymuned neu i deuluoedd. Nid oes angen i ni wybod a ydych chi'n mesur y canlyniadau ychwanegol hyn na sut.

5 Astudiaeth achos

Rhowch astudiaeth achos i ni i ddangos sut mae plentyn neu berson ifanc unigol wedi gweld gwahaniaeth yn eu bywyd o ganlyniad i'r prosiect. Mae ein canllawiau allweddol ar gyfer gwneud hynny ar gael yn y blwch isod ac ar y ffurflen ei hun.

Mae straeon unigolion yn dod â phrosiect yn fyw ac yn ein helpu ni i ddeall gwir werth yr hyn rydych chi'n ei wneud. Ysgrifennwch grynodedb byr o astudiaeth (neu astudiaethau) achos, sy'n dangos sut mae plentyn neu berson ifanc unigol wedi profi gwahaniaeth yn ei fywyd o ganlyniad i'r prosiect rydyn ni wedi'i ariannu.

Peidiwch BYTH â rhoi data personol a allai ddatgelu pwy yw plentyn neu berson ifanc mewn astudiaeth achos, yn cynnwys ei enw (defnyddiwch y fformat Plentyn [LLYTHYREN] yn lle hynny). Dylech sicrhau bod yr holl enwau a manylion sy'n cael eu defnyddio mewn straeon yn gyfrinachol er mwyn sicrhau nad oes modd adnabod y plentyn neu'r person ifanc. Os byddwch chi'n darparu gwybodaeth rydyn ni'n ei hystyried yn bersonol, byddwn yn ei dileu ac yn dychwelyd eich Ffurflen Adrodd i gael ei hailgyflwyno.

Er enghraifft:

Ddim yn cael ei ganiatáu: "Anna J, sydd â syndrom Eisenmenger"

Yn cael ei ganiatáu: "Plentyn C sydd â chyflwr ar y galon"

Fel canllaw, nid ydym yn teimlo y dylech chi ysgrifennu mwy na rhyw 500 gair, a gall fod yn fyrrach o lawer os ydych chi'n dymuno. Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio eich astudiaeth achos ar gyfer apêl codi arian neu gyhoeddusrwydd – ond byddwn yn gofyn i chi'n gyntaf bob amser.

Awgrymiadau ar gyfer Astudiaeth Achos

- dylech ei chysylltu â'r cyllid a gawsoch gennym ni

- dywedwch wrthym sut brofiad oedd hyn drwy lygaid plentyn rydych chi wedi gweithio gydag ef

- sut oedden nhw ar y diwrnod cyntaf?

- sut gwnaeth pethau newid iddyn nhw?

- mae'n wych os yw eich astudiaeth achos yn dod ag un o'r tri phrif wahaniaeth mae eich prosiect yn eu gwneud yn fyw

- os oes modd, ystyriwch gynnwys dyfyniadau uniongyrchol a dienw gan blant

6. Beth rydych chi wedi'i ddysgu?

Rydyn ni'n annog sefydliadau i barhau i ddatblygu a dysgu. Dywedwch wrthym ni am yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu, gan gynnwys;

- *Beth sydd wedi gweithio'n arbennig o dda – a oes unrhyw arferion da yr hoffech chi dynnu sylw atynt?*
- *Beth yw'r prif heriau rydych chi wedi dod ar eu traws wrth gyflawni'r prosiect hwn?*
- *Beth, os unrhyw beth, ydych chi wedi'i newid neu y byddech chi'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf i wella eich prosiect?*
- *Oes gennych chi unrhyw gyngor neu awgrymiadau y byddech chi'n eu rhannu ag eraill?*

Y cwestiwn hwn yw eich cyfle chi i bwysu a mesur yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu. Meddyliwch am y rhwystrau a'r heriau rydych chi wedi'u hwynebu ac unrhyw bwyntiau dysgu, yn ogystal â beth

aeth yn dda. Credwn ei bod yn bwysig i brosiectau ddysgu a gwella er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i blant.

Oes unrhyw faterion neu newidiadau penodol y tu allan i'ch sefydliad wedi effeithio ar eich prosiect eleni? Gallai hyn gynnwys newidiadau yn eich sector, gyda'ch partneriaid neu yn eich ardal leol, fel:

- *Heriau newydd neu gynyddol*
- *Cyfleoedd yn effeithio ar blant a phobl ifanc*
- *Materion yn ymwneud â pholisi*

Mae hwn yn gwestiwn dewisol, a gall helpu i wella dealltwriaeth y rheini sy'n dyfarnu ein grantiau o faterion a thueddiadau lleol.

Mae'n ddiddorol ac yn ddefnyddiol i'n rhoddwyr grantiau a'n dealltwriaeth ehangach i ganfod a dysgu o faterion a thueddiadau lleol. Hoffem glywed am unrhyw gyd-destun y mae eich prosiect yn gweithio ynddo sydd wedi effeithio ar eich prosiect eleni – gall ffactorau allanol helpu neu lesteirio eich gwaith. Gallai'r rhain fod yn heriau a/neu'n gyfleoedd yn yr ardal leol, yn eich sector, gyda phartneriaid.

7. Eich Cyllid

Yn eich barn chi, ydych chi'n teimlo bod cael grant gan BBC Plant mewn Angen wedi'ch helpu chi i gael cyllid o ffynonellau eraill?

Os ydych chi, dywedwch wrthym yn fras faint ac o ble:

Hoffem wybod sut gallai ein grantiau ddenu cyllid o ffynonellau eraill. Mae atebion i'r cwestiynau hyn yn ddewisol ac ni fyddant yn effeithio ar eich grant presennol, nac unrhyw geisiadau yn y dyfodol. Dywedwch wrthym os ydych chi'n meddwl bod ein grant wedi eich helpu chi i gael cyllid o ffynonellau eraill. Os felly, dywedwch wrthym yn fras faint ac o ble. Fyddwn ni ddim yn rhannu'r wybodaeth hon ag unrhyw un arall. Bydd yn cael ei chyfuno ar draws prosiectau i'n helpu i ddeall ein rôl bosibl o ran cefnogi cyllid arall.

8. Diweddariad Diogelu

A oedd unrhyw ddigwyddiadau neu bryderon ynghylch diogelu yn ystod y cyfnod rydych chi'n adrodd arno?

[Oedd / Nac oedd]

Mae digwyddiad diogelu yn cyfeirio at unrhyw ddigwyddiad neu achos o ddatgelu gwybodaeth am blentyn, a fyddai'n achosi pryder ynghylch lles y plentyn. Gall eich sefydliad reoli rhai digwyddiadau diogelu. Gellir gwneud hyn drwy ofyn am wybodaeth ychwanegol, siarad ag aelodau o'r teulu neu roi cymorth ychwanegol ar waith. Byddai angen cyfeirio digwyddiadau mwy difrifol at wasanaeth statudol fel yr Heddlu neu adran Gofal Cymdeithasol i Blant.

Os mai 'Nac oedd' oedd eich ateb – ewch i adran 9 isod.

Os mai 'Oedd' oedd eich ateb – atebwch y cwestiynau canlynol.

Beth wnaethoch chi ei ddysgu o ganlyniad i hynny, a sut ydych chi wedi rhoi'r hyn a ddysgoch ar waith?

[Nifer geiriau 250]

Gallai hyn gynnwys unrhyw newidiadau rydych chi wedi'u gwneud i'ch prosesau, hyfforddiant neu weithdrefnau a fyddai'n atal digwyddiad fel hwn rhag digwydd eto yn y dyfodol.

Fyddech chi'n disgrifio hwn fel "Digwyddiad difrifol"?

[Byddwn / Na fyddwn]

Mewn digwyddiad difrifol, byddai'n rhaid rhannu gwybodaeth gyda'r Heddlu neu adran Gofal Cymdeithasol i Blant. Gellir diffinio digwyddiad difrifol fel sefyllfa lle mae plentyn wedi profi (neu'n debygol iawn o brofi) niwed corfforol neu emosiynol a fyddai'n effeithio ar ei ddiogelwch, ei iechyd neu ei ddatblygiad.

Os oedd yn "Ddigwyddiad difrifol", ydych chi wedi rhoi gwybod i'ch Rheoleiddiwr am hyn?

[Do / Naddo]

9. Y Diweddaraf am y Sefydliad

Ers i'ch cais gael ei gyflwyno, a oes unrhyw newidiadau nad ydych chi eisoes wedi dweud wrthym amdanynt; o ran y ffordd mae eich sefydliad yn cael ei redeg, neu unrhyw "Ddigwyddiadau Difrifol" nad ydynt yn ymwneud â diogelu sydd wedi cael eu hadrodd i'r Rheoleiddiwr, neu y mae angen rhoi gwybod i'r Rheoleiddiwr amdanynt?

Gallai hyn gynnwys unrhyw un o'r newidiadau canlynol:

- Newidiadau i strwythur eich sefydliad
- Newidiadau i'ch perthynas â chyrrff rheoleiddio
- Gwahaniaethau o ran y ffordd rydych chi'n delio â'ch cyllid neu ddiogelu

Os oes, disgrifiwch y newidiadau hyn yma.

10. Beth gall ein harian ei brynu: ystadegau codi arian

Efallai eich bod wedi gweld yn rhywfaint o'n gwaith codi arian (e.e. ar y teledu a'r radio) ein bod yn defnyddio ystadegau i ddangos sut gall rhodd wneud gwahaniaeth i blant a phobl ifanc. Dewiswch bris o'r gwymplen a dweud wrthym ni beth gallai ei brynu ar gyfer eich prosiect.

Mae hwn yn gwestiwn dewisol, ond gall yr atebion a ddarperir ein helpu ni i godi mwy o arian ar gyfer prosiectau fel eich un chi. Gallai enghreifftiau gynnwys:

- wythnos o glwb ar ôl ysgol
- mynd â phlentyn anabl ar wyliau preswyl dros y penwythnos
- sesiwn cwnsela un-i-un ar gyfer plentyn mewn profedigaeth
- sesiwn therapi celf ar gyfer clwb ieuencid.

Dylai fod yn rhywbeth y mae BBC Plant mewn Angen yn ei ariannu yn eich prosiect. Ni fydd unrhyw enghreifftiau a ddefnyddir yn enwi'r prosiect neu'r sefydliad penodol heb gael caniatâd ymlaen llaw.

Eich Adroddiad Ariannol

Dadansoddiad Ariannol o'ch Grant BBC Plant mewn Angen

Dywedwch wrthym sut rydych chi wedi gwario arian eich grant BBC Plant mewn Angen dros y flwyddyn ddiwethaf. Dylech gyfeirio at eich ffurflen gyllideb wreiddiol a'r llythyr dyfarnu grant i'ch atgoffa o ddadansoddiad ariannol manwl eich grant. Sylwch y bydd angen i chi allu dangos tystiolaeth o'r wybodaeth a roddir isod.

Sylwer: os oes gennych chi danwariant neu os ydych am ailbroffilio eich cyllideb ar gyfer y flwyddyn hon o'ch grant, bydd angen i chi siarad â'ch Swyddog Cenedlaethol/Rhanbarthol i drafod hyn **cyn cyflwyno eich adroddiad**.